

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar y 14eg Ebrill, 2009, yn Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 14th April, 2009 at the Felin Sgwrsio , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd/Chairperson)
Iestyn Harris (Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Ken Brown;
Carolyn Pritchard; George Smith, Pat White;
Daniel Williams.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnwyd croeso i'r Cyfarfod.

A welcome was extended to the meeting.

2) Ymddiheuriadau/Apologies: Pat Jones; Eluned Owen;

3)Cyfethol / Co-option: Cyfetholwyd Mr Aled G. Jôb ar y Cyngor a'i groeshawyd fel Cynghorydd. Arwyddodd ddatganiad yn derbyn y swydd.
Mae un sedd wag ar gael.

Mr Aled G. Jôb was co-opted onto the Council and he was welcomed as a Councillor. He signed the declaration accepting office.
There remains one vacant seat on the Council

4) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

5) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod 10fed Mawrth fel rhai cywir.

Minutes of the meeting held on 10th March were confirmed.

6) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

Gwefan –Cynhaliwyd noson i fudiadau. Penderfynwyd fod angen marchnata'r wefan yn gyffredinol a gofynnwyd i'r Clerc a'r Cadeirydd ymchwilio i'r posibilrwydd o gynyrchu "coasters" erbyn Gwyl y Felin.

Traffic a Parcio - Adroddwyd bod y ffens wedi ei gosod i atal ceir rhag mynd ar y pafin yn Stryd Bangor ac fod stydiau'r hen groesfan pelican wedi eu tynnu ffwrdd. Cafwyd gohebiaeth gan Mr Dewi Hughes yn awgrymu creu cilfan parcio o flaen

Uwch Menai. Diolchwyd iddo am ei ddiddordeb ac adroddwyd fod y syniad yma wedi ei drafod eisioes a fod y Cynghorydd Sir yn disgwyl adroddiad gan Cyngor Gwynedd ar y mater. Trafodwyd y syniad o docynnau parcio i breswylwyr a cytunwyd fod angen trafodaeth bellach ar hyn. Cytunwyd i ymchwilio i ffyrdd o wella parcio fel mater o flaenoriaeth gan y Cyngor ac mae croeso i unrhyw awgrymiadau.

Canolfan Iechyd Rowen – dim newydd.

Carchar – Adroddwyd fod cyfarfod wythnos nesaf pryd bydd mwy o wybodaeth ar gael a chyfarfod cyhoeddus yng Nghaernarfon ar Ebrill 24.

Felin Sgwrsio – Cynigiodd Cyng Pat White, eiliodd Cyng Daniel Williams i barhau i gyfrannu £120 am y tri mis nesaf – Mai, Mehefin, Gorffennaf ac i adolygu'r sefyllfa ar ol hynny. Pasiwyd yn unfrydol. Cytunwyd fod y Clerc yn symud mlaen i drefnu hysbysfwrdd yn ffenest y Felin Sgwrsio ble bydd agenda'r Cyngor Cymuned yn cael ei arddangos a bydd y llyfr cofnodion ar gael tu mewn.

Arddangofa Gwyl y Felin – trafodwyd yr arddangosfa fydd yn son am y gwelliannau yn y pentref (gyda lluniau); cynlluniau traffig (casglu syniadau) : Neuadd: Llwybrau Cyhoeddus : Gwefan.

Felin Daclus – Bydd casglu sbwriel noddedig ar Mai 17 am 2 gan gychwyn a gorffen yn y Felin Sgwrsio. Croeso i bawb ac anogwyd Cynghorwyr i gymeryd rhan hefyd. Bydd cynrychiolwyr o Trefi Taclus a Chyngor Gwynedd yn bresennol. Adroddwyd fod grwp yn ymchwilio i'r syniad o alotments.

Rhaglen Blitz – Mae peth o'r gwaith wedi ei wneud gan Cyngor Gwynedd ond nid y gwaith pafin yn Stryd Bangor. Mae'r Rhaglen yn cynnwys paentio'r rheiliau ar waelod Brynffynnon a'r fainc ar dop stepiau Cei. Bu'r Clerc yn gohebu gyda dau berchennog eiddo preifat ynglyn a gwaith oedd angen ei wneud ac mae un o'r rhain wedi ei gwblhau.

Tai Fforddiadwy – dim i'w adrodd.

WEB SITE – An evening was arranged for organisations. It was decided that there was a need to market the web site generally and the Clerk and Chairman were asked to investigate the possibility of producing coasters by 'Gwyl y Felin'.

TRAFFIC AND PARKING – reported that a fence has now been fixed to prevent vehicles from mounting the pavement in Bangor Street and that the studs denoting the old pelican crossing have been removed. Correspondence received from Mr Dewi Hughes suggesting creating a parking lay by in front of Uwch Menai was received. He was thanked for his interest and reported that his suggestion has been previously discussed and that the County Councillor is awaiting a report from Gwynedd Council on the subject. A suggestion of Parking

Permits for Residents was discussed and it was agreed that further discussion was necessary. It was agreed to further investigate ways of improving parking as a priority by the Council and any suggestions would be welcomed.

ROWEN MEDICAL CENTRE – nothing to report.

PRISON – Reported that a meeting is to be held next week when there should be more information available and a Public Meeting in Caernarfon on 24th April.

FELIN SGWRSIO – It was proposed by Cllr Pat White, seconded by Cllr Daniel Williams, to continue making a contribution of £120 for the next three months – May, June and July and to further review the situation. This was agreed unanimously. Agreed for the Clerk to progress with the arrangements for a notice board to be located in the window of Felin Sgwrsio where the Council's Agenda will be posted and a copy of the minutes will be available within.

GWYL Y FELIN EXHIBITION – this exhibition will be showing improvements in the village (with photographs); traffic plans (collecting suggestions); The Memorial Hall; Public Footpaths; Web site.

FELIN DACLUS – A sponsored rubbish collection day has been arranged for 2.0pm on Sunday, 17th May starting and finishing at the Felin Sgwrsio. Everybody will be welcomed and Councillors were also encouraged to take part. Representatives from Tidy Towns and Gwynedd Council will be present. It was reported that the group is investigating the suggestion of public allotments.

BLITZ PROGRAMME – Part of the work schedule has been done by Gwynedd Council but not the pavement on Bangor Street. The programme includes painting the railings at the bottom of Brynffynnon and the bench at the top of the steps leading to the quay. The Clerk has been in correspondence with two private property owners regarding necessary work to be undertaken and one of these has been completed.

AFFORDABLE HOUSING – Nothing to report

7) **Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:**

Cadarnhawyd gwariant Mis Mawrth. Cyflwynwyd mantolen ddrafft am y flwyddyn 2008/09 a diolchwyd i'r Clerc am ei waith. Cytunwyd y bydd y Cynghorwyr Iestyn Harris a Carolyn Pritchard (archwilwyr cyfrifon y Cyngor) yn mynd trwy'r cyfrifon cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno i'r Archwiliwr Allanol.

Payments for the month of March were confirmed. A draft balance sheet was produced for the year 2008/09 and the Clerk was thanked for his work. Agreed that Cllrs Iestyn Harris and Carolyn Pritchard (Council account auditors) would inspect the accounts before they are submitted to the External Auditor.

8) **Gohebiaeth/Correspondence:**

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted.

Cyngor Cymuned Llandwrog / Llandwrog Community Council
Parthed Sgwar, Caernarfon Re: Caernarfon Square

Penderfynwyd cefnogi'r cais gan Cyngor Cymuned Llandwrog a gofyn am fwy o wybodaeth oddiwrth Cyngor Gwynedd.

Decided to support the request from Llandwrog Community Council and to ask Gwynedd Council for further information.

9) **Adroddiad Is-Bwyllgor Y Neuadd / Report of Hall Sub-Committee**

Cafwyd cwynion am bobol yn ymgasglu tu allan a chreu helynt. Cytunwyd mai mater i'r Heddlu yw hwn ac anogwyd trigolion lleol i ffonio'r heddlu pan fydd problemau yn codi.

Ystyriwyd lythyr yn gofyn am arian gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd a chynigiodd Cyng Pat White, eiliodd Cyng Lena Ashley, fod swm o £5000 i'w roi tuag at y Cynllun Gwella - £2,000 o flwyddyn ariannol 2008/09 a £3,000 o flwyddyn 2009/10.

Adroddwyd fod y Pwyllgor Rheoli wedi cyfarfod yn gyson gyda'r pensaer ac fod adroddiad strwythurol wedi ei gwblhau. Adroddwyd fod y Pwyllgor Rheoli wedi codi'r £32,000 ychwanegol oedd ei angen ar gyfer y cynllun gwella gan gynnwys grant gan Tir a Mor. Bydd y Pwyllgor Rheoli rwan yn symud mlaen i baratoi cynlluniau a chostau manwl fydd yn cael eu harddangos yn ystod Gwyl y Felin.

Adroddwyd fod y Pwyllgor Rheoli wedi cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Defnyddwyr ar Mawrth 25 i drafod y Cynllun Gwella.

Complaints have been received of people congregating outside and creating a disturbance. Agreed that this was a police matter and encouraged local residents to contact the police when problems arise.

Consideration was given to a letter received from the Hall Management Committee requesting financial assistance and it was proposed by Cllr Pat White, seconded by Cllr Lena Ashley that a sum of £5,000 be contributed towards the Improvement Plan - £2,000 from this years' budget followed by £3,000 from the 2009/10 budget.

Reported that the Management Committee have held regular meetings with the Architect and a structural report has been finalised. Reported that the Management Committee have successfully raised the additional £32,000 required for the improvement plan including a grant from Tir a Mor. The Management Committee can now progress to prepare detailed plans and costings. That hopefully will be exhibited during Gwyl y Felin.

Reported that a meeting with the Hall Users' Group had been held on 25th March to explain the proposed improvements.

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Diolchwyd i Cyng Pat White am edrych ar ol y potiau blodau.

Gwlybaniaeth Mewnol – cafwyd adroddiad gan y Clerc yn egluro'r sefyllfa. Ar ol ymholi a Chlerc Gwalchmai, sydd ar un fath o cloc cofeb a sydd yn Y Felinheli, eu bod hwythau wedi cael trafferthion gyda gwlybaniaeth ond wedi ail-bwyntio a taenu hylif atal dwr, mae'r broblem wedi ei choncro. Mae'r Pensaer mewn cysylltiad a'r adeiladwr a ymgymrodd y gwaith ar y cloc gyda'r gobaith y bydd cot arall o'r hylif atal dwr yn cael ei wasgaru dros yr adeiladwaith.

Cllr Pat White was thanked for attending to the flower pots.

Internal water seepage – the Clerk reported on the present situation. Following enquiries with the Clerk of Trewalchmai Community Council, who have responsibility for the same type of construction as the Felinheli clock, that they also had had problems with water seepage but after re-pointing and applying water repellent solution, the problem has been conquered. The Architect is in contact with the building contractor who undertook work on the Clock in the hope that another coat of the water repellent solution would rectify the problem.

11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Ni fydd Cyng Sian Gwenllian yn cymeryd unrhyw ran mewn trafodaeth ar geisiadau cynllunio.

Councillor Sian Gwenllian will take no part in discussions on planning matters.

- 1) Gweithdy Vaynol - Cadw rhodfa o'r gwaith peirianyddol cysylltiedig ynghyd a gosod Disgyl lloeren ac coeden – DIM GWRTHWYNEBIAD
Vaynol Workshop - Retention of driveway and engineering works together with siting of a satellite dish and tree. NO OBJECTION

- 2) 9 Aber Cottages, Y Felinheli Addasu ac ehangu / Alterations and extensions
DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION
Sylwer/Note: Byddai copi o'r cynllun sy'n bodoli wedi bod yn fanteisiol
A copy of the existing plan would have been of benefit.
- 3) Gardd Fon, Y Felinheli - Newidiadau allanol, estyniadau a newid defnydd rhan o'r tafarndy a'r drws nesaf i ystafelloedd gwesteion / External alterations, extensions and change of use of part of the public house and adjoining dwelling into guest rooms
DIM GWRTHWYNEBIAD – CAIS WEDI EI GANIATAU YN BAROD
NO OBJECTION – APPLICATION ALREADY APPROVED
- 4) Tir Ger / Land by, Bwthyn y Cei, Y Felinheli – Codi Ty Tri Llawr / Erection of a 3 Storey Dwelling – DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION.
- 5) 5 Teras Jubilee / Jubilee Terrace – Ffenestr Newydd yn y To / New Dormer Window
DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Diolchwyd i'r Clerc a'r is-bwyllgor am eu gwaith manwl o gael trefn ar y fynwent ac fe'u llongyfarchwyd am y gwaith. Cytunodd y Clerc i ail-osod un o'r placiau ar y giat gan fod dwr wedi mynd iddo. Mae'r plac llechen ar gyfer y fainc yn cael ei pharatoi.

Adroddwyd fod un carreg fedd wedi ei difrodi'n ddiweddar ac mae Cyng Pat White yn ymchwilio i'r mater.

The Clerk and sub-committee were thanked for their detailed work at the cemetery and they were congratulated on their work. The Clerk agreed to replace one of the notices on the gate as it had been affected by water. The slate plaque for the new bench is being prepared.

Reported that a head stone had recently been damaged and Cllr Pat White is making enquiries.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Cytunwyd y bydd y Clerc a Cyng Ken Brown yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod postiau mewn dau fan i atal ceir rhag parcio a rhwystro ceir a cherddwyr.

Agreed for the Clerk and Cllr Ken Brown to enquire as to the possibility of placing two bollards to prevent cars from parking causing obstruction to other cars and pedestrians.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – mae'r gwaith o ddatblygu'r rhan yma o'r wefan yn mynd yn ei flaen.

Cysgodfannau - adroddwyd fod y cysgodfan yn Nhafarngrisiau angen sylw. Atgoffwyd y cynghorwyr mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw pob cysgodfan yn y pentref ac fod y gwaith yma wedi ei ychwanegu at gytundeb gwaith y cwmni torri gwair. Clerc i gysylltu a'r cwmni i ofyn am waith ar gysgodfan Tafarngrisiau.

Cysgodfan ger Londis – Cyng Daniel Williams am lanhau graffiti

Cysgodfan Half Way - Clerc yn trafod y gwaith paentio dros y graffiti gyda chwmni arbenigol lleol.

Footpaths – the work of developing this part of the web site is progressing.

Bus Shelters – Reported that the bus shelter in Tafarngrisiau was in need of attention. The Councillors were reminded that repair and maintenance responsibility for shelters lies with the Council and that this work had been added to the grass cutting contract.

Clerc to consult with company requesting attention to the Tafarngrisiau shelter.

Shelter opposite Londis – Cllr Daniel Williams to treat the graffitti.

Half Way Shelter – the Clerk is in discussion with a local specialised company regarding the over-painting of the graffitti.

15) Adroddiad y Cyngorydd Sir/Report of County Councillor

Cyflwynwyd adroddiad ar bapur ac ychwanegwyd y canlynol ar lafar :

Lon Brynffynnon – mae dau lwyfan tawelu traffig wedi eu gosod yma yn lle'r hen rai. Dyma'r math safonol mae'r Cyngor bellach yn eu defnyddio. Angen monitro'r sefyllfa i weld eu bod yn effeithiol.

Bron Menai – adroddwyd fod yr ymgeisydd wedi apelio yn erbyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthod caniatad i ail dy. Bydd y Cyngorydd yn rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriad.

Ysgol Y Felinheli – adroddwyd fod yr ysgol, fel pob ysgol arall, wedi wynebu toriadau ond ni fu raid diswyddo staff. Adroddwyd fod y cynllun ad-drefnu cynradd wedi ei basio bron yn unfrydol gan y Cyngor Sir.

Stoc Tai Cyngor – eglurwyd fod y tenantiaid wedi pleidleisio dros roi'r tai yn nwylo cymdeithas dai di-elw a chyflwynwyd fanylion am hyn.

Rhyd y Fenai – adroddwyd fod gwaith gwella wedi digwydd ar rai o'r tai gan gynnwys gosod ffenestri dwbwl.

Cyfarfod teyrnged W O Jones – cafwyd adroddiad am y cyfarfod oedd yn un llwyddiannus dros ben.

A written report was received and a verbal report was received on the following: Brynffynnon Road – two traffic calming strips have replaced the old ones. These are the accepted types now used by the Council. The situation needs monitoring to ensure that they are effective.

Bron Menai – reported that the applicant had lodged an appeal against Gwynedd Council's refusal to grant planning permission to erect a second dwelling. The Councillor will now be required to give evidence at the hearing.

Felinheli School – reported that the school, along with other schools, have faced cuts but here will be no need for staff redundancies. The schools reorganisation programme has been unanimously passed by the County Council.

Gwynedd Council Housing Stock – explained that tenants had voted in favour of placing the stock in the hands of a non-profit making organisation and details of this were conveyed.

Rhyd y Fenai – improvement works have been undertaken on some of the houses including installing double glazing.

Tribute to W.O. Jones – report received of the highly successful meeting.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Normandy Landing – cytunwyd i gais Cyng Pat White i ddefnyddio Cofeb y Cloc ar gyfer digwyddiad ar Mehefin 6.

It was agreed to grant Cllr Pat White's application to use the Memorial Clock for an event on June 6th

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 9.10 yh

No other matters to discuss and the Meeting finished at 9.10.p.m.

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Felin Sgwrsio am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Mai 12fed

The next meeting will be held at the Felin Sgwrsio at 7.00 p.m. on Tuesday 12th May, 2009

**PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD GOFFA
MEMORIAL HALL MANAGEMENT COMMITTEE**

Cofnodion o Gyfarfod Bwyllgor Rheoli'r Neuadd yn y Neuadd, Ddydd
Mawrth, 11eg Tachwedd, 2008.

*Minutes of the Meeting of the Hall Management Committee held on Tuesday, 11th
November 2008.*

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd/Chairperson)

Rosalind M. Jones; Pat Jones; Eluned Owen
George Smith; Pat White; Daniel Williams.
Wynne Barton (Ysgrifennydd/Trysorydd)

Ymddiheuriadau/ Apologies: Iestyn Harris (Is-Gadeirydd); Lena Ashley;
Gerald Roberts;

Pwyllgor Rheoli'r Neuadd – Cyfansoddiad wedi ei gynllunio a chopi wedi mynd at CFAP. Mater i'w drafod ar ol i fersiwn Saesneg o'r cyfansoddiad gael ei ddarparu.

Angen darparu Prydles erbyn cyfarfod nesaf.

Materion yma i'w cofnodi ar wahan gan fod Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn Bwyllgor annibynol i'r Cyngor Cymuned er mai aelodau o'r pwyllgor yw Cynghorwyr Cymuned gyda'r hawl i gyf-ethol aelodau o gymdeithasau eraill ac o'r cyhoedd.

The Constitution for this new committee has been prepared and a copy forwarded to CFAP. This matter to be further discussed after an English version has been prepared.

A Lease is to be prepared for the next meeting.

Minutes to be recorded separately as this committee is a separate entity from the Community Council albeit that its members are members of the Community Council with powers to co-opt members of other societies/organisations and members of the public that have an interest in promoting the future development of the Hall.

CYFRINACHOL

Cofnod llawn o eitem 9 Lwfans y Clerc (Cyfarfod 11.11.08)

Lwfans y Clerc Yn absenoldeb y Clerc, penderfynwyd talu lwfans i'r clerch gyda ol-daliad am ddwy flynedd ar gyfer defnydd ei dy fel swyddfa i'r Cyngor a defnydd ei gyfrifiadur personol ar gyfer gwaith gweinyddol y Cyngor. Wedi dychwelyd i'r cyfarfod, derbyniodd y Clerc y cynnig gyda diolch.

Manylion – Cytunwyd ar y taliadau canlynol:

£60 y mis am ddefnydd ei gartref fel swyddfa i'r Cyngor Cymuned.

£200 y flwyddyn am ddefnydd ei offer cyfrifiadurol personol i weinyddu gwaith y Cyngor
Darparu a thalu am alwadau ffôn symudol 'pay as you go' ar gyfer busnes y Cyngor.

Talu lwfans teithio yn unol a chyfraddau a amgymhellir gan NALC/Un Llais Cymru.

Ôl-daliad am gyfnod o ddwy flynedd allan o dair.

Trefn Taliadau:

Ebrill 2006 hyd at Mawrth 2007 – ôl-daliad yn syth

Ebrill 2007 hyd at Mawrth 2008 – ôl-daliad Ebrill 2009

Ebrill 2008 hyd at Mawrth 2009 – ôl-daliad chwarterol ym mlwyddyn ariannol 2009/2010

Ebrill 2009 hyd at Mawrth 2010 – ôl-daliad chwarterol ym mlwyddyn ariannol 2010/2011

Trwy gytundeb - nid oes angen ffôn symudol ac ni fydd cais am ôl-daliad galwadau ffon na chwaith am ôl-daliad costau teithio.

CONFIDENTIAL

CLERK'S ALLOWANCE – In the absence of the Clerk it was decided to pay him an allowance backdated for the last two years, for the use of his home as an office for the Council and the use of his personal computer equipment to administer Council matters. On his return, the Clerk accepted the offer with grateful thanks.

Details – Agreed to make the following payments:

£60 per month for the use of his home as an office for the Community Council
£200 per annum for the use of his personal computer equipment for the purpose of administering the Council's work.

Make arrangements for and make payments for a Pay as you go mobile phone for Council's business.

Pay travelling expenses in accordance rates set by NALC / One Voice Wales guidelines.

Back-payments for 2 out of the three years employed:

Payment Arrangements:

April 2006 to March 2007 - Immediate back-payment

April 2007 to March 2008 - Back-payment April 2009

April 2008 to March 2009 - quarterly back-payment in the 2009/2010 financial year

April 2009 to March 2010 - quarterly back-payment in the 2010/2011 financial year

By agreement - a mobile phone not required and there will not be a back claim for telephone calls or for travelling expenses.

:

